
# Rheoli lefel y sain – togl

Bydd y togl lefel sain yn eich galluogi i godi neu ostwng lefel sain eich cymhorthion clyw.

1. I godi lefel y sain, pwyswch ben uchaf y togl.
2. I ostwng lefel y sain, pwyswch ben isaf y togl.






Pan fyddwch yn codi neu'n gostwng lefel y sain, byddwch yn clywed bîp bob tro y byddwch yn pwyso’r togl. Pan fyddwch wedi codi neu ostwng lefel y sain yr holl ffordd, byddwch yn clywed bîp dwbl. Newidiadau dros dro fydd y newidiadau hyn i lefel y sain. Pan fyddwch yn ailgychwyn eich cymorth clyw, bydd y sain yn dychwelyd i’r lefel a osodwyd gan eich Awdiolegydd. Defnyddiwch y nodwedd ‘Favourite’ o fewn ap BeMore os hoffech gadw'r gosodiadau lefel sain hyn.

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**

Y dewis cywir ar gyfer y GIG

danalogic GN

UK 05.61 C 9.2022